

Tasg 1

(Heriol, sbardun 1)

Cwis cyflym

Faint rydych chi'n ei gofio?

Rhowch gynnig ar y cwestiynau yma mewn grwpiau.

[Mae'r atebion yng Ngweithgaredd 2. Ar ôl gorffen y cwis, gwiriwch eich atebion a rhowch bwynt i'r grŵp am bob ateb cywir. Mae cyfle i chi ennill 16 o bwyntiau yng nghwestiwn 1!]

1. Dyfalwch pa wledydd oedd yn cystadlu yng Ngemau Olympaidd y Gaeaf 1924.
Ysgrifennwch restr.
(Wrth drafod, edrychwch yn ofalus ar y campau – pa wledydd fyddai'n debygol o fedru cystadlu yn y campau hyn?)
2. Roedd llawer i'w weld a llawer i'w glywed yn Seremoni Agoriadol Gemau Olympaidd y Gaeaf 1960.
Beth oedd i'w weld?
 - i.
 - ii.
 - iii.
 - iv.
3. Beth oedd i'w glywed?
 - i.
4. Pryd dechreuodd Gemau Paralympaidd y Gaeaf?
5. Beth oedd y ddau brif gategori yn y Gemau hynny?
6. Sut mae'r swyddogion yn Sochi yn ceisio datrys unrhyw broblemau allai godi gyda'r tywydd?
 - i.
 - ii.
 - iii.
7. Ble mae'r cystadlaethau sgïo'n digwydd?
8. Faint o gystadlaethau sydd eleni?
9. Sut mae merched yn cael eu trin yn wahanol yng Ngemau Olympaidd y Gaeaf erbyn heddiw?
10. Beth ddigwyddodd yn 1994?

10. Gan ddefnyddio gwybodaeth yn y darn yn unig, beth yw'r cysylltiad rhwng Gemau Olympaidd y Gaeaf â Groeg?